Adran Gwaith a Phensiynau

# Y cap ar fudd-daliadau: adolygiad o'r flwyddyn gyntaf

Cyflwynwyd gerbron y Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau
ar Orchymyn Ei Mawrhydi
Rhagfyr 2014

Cm 8985

© Hawlfraint y Goron 2014

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3** neu ysgrifennwch at The national Archives, Kew, London TW9 4DU, anfonwch e-bost: **psi@nationalarchives. gsi.gov.uk**.

Lle mae deunydd trydydd parti wedi'i nodi, rhaid cael caniatâd y deiliad hawlfraint priodol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **www.gov.uk/government/publications/benefit-cap-review-of-the-first-year**

**Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn**

**Working Age Benefit Division**
**Caxton House**
**6-12 Tothill Street**
**London**
**SW1H 9NA**

**E-bost: workingage.benefitsstrategy@dwp.gsi.gov.uk**

Argraffedig ISBN 9781474113199
Gwe ISBN 9781474113205

Rhif Adnabod 08121403 12/14

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

## Cynnwys

**Crynodeb gweithredol** 4

# Crynodeb gweithredol

## Rhesymeg y polisi

- Roedd y cap ar fudd-daliadau yn un o'r polisïau a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth yn yr Adolygiad o Wariant 2010 fel rhan o'i strategaeth i ddiwygio lles ar gyfer pobl o oedran gweithio.
  - Gwaith yw'r llwybr gorau allan o dlodi. Mae incwm yn bwysig, ond mae tlodi yn golygu mwy nag incwm yn unig; mae hefyd yn ymwneud â diffyg cyfleoedd, dyhead a sefydlogrwydd. Nid yw annog dibyniaeth ar fudd-daliadau yn torri cylchoedd rhyng-genedlaethol o anfantais.
  - Mae canlyniadau o adroddiadau gwerthuso'r cap ar fudd-daliadau yn dangos tystiolaeth o newid ymddygiad. Mae symud i mewn i waith ar gyfer y cartrefi hynny yr effeithir arnynt gan y cap ar fudd-daliadau yn uwch na'r symudiad i mewn i waith gan grŵp cymharol o gartrefi nad effeithir arnynt gan y cap.
- Mae'r polisi cap ar fudd-daliadau yn ceisio taro'r cydbwysedd cywir ar draws y prif amcanion o gynyddu'r cymhellion i weithio, gan gyflwyno mwy o degwch a gwneud arbedion ariannol tra'n parhau i ddiogelu amddiffyn hawlwyr sy'n agored i niwed nad yw gwaith yn ddewis ymarferol ar hyn o bryd.

## Pobl â nodweddion gwarchodedig

- Mae ein hasesiad o effaith y polisi ar bobl gydag un neu fwy o nodweddion gwarchodedig wedi bod yn broses barhaus. Ar ôl ein hadolygiad o'r asesiad effaith cydraddoldeb y cap ar fudd-daliadau ym mis Gorffennaf 2012, gwnaethom ymestyn (cyn gweithredu) eithriadau a threfniadau cymorth ar gyfer hawlwyr y byddai o bosibl yn cael eu capio. Nododd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol[1] fel arfer da y cyflwyniad o fesurau lliniaru o ganlyniad i asesiadau a wnaed o effeithiau'r polisi ar grwpiau gwarchodedig.

[1] Equality and Human Rights Commission – Fair Financial Decision-Making: 2014 Progress Report.

- Mae'r amcangyfrifon a wnaethom yn ein hasesiadau effaith[2] 2012 o nodweddion Cartrefi a fyddai'n cael eu heffeithio gan y cap yn fras yn unol â nodweddion â'r rhai a effeithir arnynt **mewn gwirionedd** gan y cap budd-daliadau ers ei gyflwyno (hyd at fis Awst 2014). Mae'r mesurau lliniaru rydym yn eu gosod yn seiliedig ar y nodweddion amcangyfrifedig hyn yn cael y canlyniad a ddymunir.

## Cefnogaeth y cyhoedd

- Mae'r cap ar fudd-daliadau yn bolisi poblogaidd gyda chefnogaeth gyhoeddus gref i'r cap mewn egwyddor ac ar ddeall manylion y polisi. Mae arolwg a gynhaliwyd gan Ipsos MORI[3] ym mis Mai/Mehefin 2013 yn dangos bod y mwyafrif helaeth o'r cyhoedd yn credu nad yw'r system les yn gweithio yn effeithiol yn flaenorol; gyda dros hanner yn datgan y dylai gwleidyddion wneud mwy i leihau swm yr arian a delir mewn budd-daliadau.

## Gweithredu'r cap budd-daliadau

- Dechreuodd y Ganolfan Byd Gwaith a'r awdurdodau lleol gweithio gyda chartrefi a allai gael eu capio blwyddyn cyn gweithredu'r cap ar fudd-daliadau er mwyn galluogi hawlwyr budd-daliadau i weithredu cyn i'r cap cymryd unrhyw effaith. Mae tystiolaeth yn dangos bod rhai o'r cartrefi a gafodd eu hysbysu am y cap ar fudd-daliadau eisoes yn symud i mewn i waith cyn ei lansio, a thrwy gydol y broses gweithredu gwnaethom weld y duedd hon yn cynyddu.

## Effaith y Cap

- Mae gwerthusiad o'r cap ar fudd-daliadau ar ôl ei flwyddyn gyntaf o weithredu yn dangos tystiolaeth gyson o newid mewn ymddygiad sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth. Mae'r symudiad i mewn i waith ar gyfer y cartrefi hynny yr effeithir arnynt gan y cap ar fudd-dal yn uwch o'i gymharu â'r niferoedd sy'n symud i mewn i waith o gartrefi tebyg nad effeithir arnynt gan y cap.
  - Mae'r newid ymddygiad hwn hefyd yn amlwg ar gyfer is-grwpiau fel y rhai sy'n cael Lwfans Gofalwr, teuluoedd mwy gyda thri neu fwy o blant a rhieni unigol (waeth beth yw oed y plentyn ieuengaf).
- Gweler mwy o symudiad i mewn i waith ar gyfer y rhai sy'n cael eu capio gan symiau mwy ac ar gyfer cartrefi mewn Llundain.
  - Lle nad yw teuluoedd eto wedi symud i mewn i waith maent yn ymdopi â'r cap drwy gyllidebu a defnyddio gwasanaethau cymorth yn y tymor byr tra'n gwneud cynlluniau i ddychwelyd i'r gwaith yn y tymor hir. Maent hefyd yn ymgymryd â mwy o weithgarwch chwiliiad gwaith nag o'r blaen ac yn fwy awyddus i ddod o hyd i waith. Dim ond lleiafrif o gartrefi sydd wedi cael eu capio sydd yn gwneud unrhyw beth yn ymateb, mae'r cartrefi hyn yn tueddu i fod yn deuluoedd sydd wedi cael eu capio gan symiau is.

2 Benefit Cap Impact Assessment and Equality Impact Assessment, July 2012.
3 https://www.gov.uk/government/publications/benefit-cap-public-attitudes-before-and-after-its-introduction

- Mae'r rhwystrau i symud i mewn i waith ar gyfer cartrefi sydd wedi cael eu capio yn cynnwys logisteg gofal plant ar gyfer plant lluosog, diffyg sgiliau iaith a chymwysterau cyfyngedig.
- Mae cyllid ychwanegol ar gyfer Taliadau Tai Dewisol wedi cael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod y rhai nad oeddent yn gallu gwneud newid mewn ymddygiad ar unwaith yn cael cefnogaeth dros dro. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod Taliadau Tai Dewisol yn gweithio; mae cartrefi yn eu gweld fel ateb dros dro ac nid yw derbyn Taliadau Tai Dewisol wedi gostwng y nifer sy'n symud o'r cap ar fudd-daliadau i mewn i waith.
- Nid yw'r mwyafrif o hawlwyr a gafodd eu capio wedi cronni ôl-ddyledion rhent. Mae tystiolaeth bod y rhai a oedd wedi cronni ôl-ddyledion ac yna symud i mewn i waith yn gallu gwneud camau i dalu'r ôl-ddyledion hynny yn ôl, gan fod pedwar o bob pump o'r rhai nad effeithir arnynt bellach yn gyfredol gyda'u rhent.
- Dim ond nifer fach o hawlwyr sydd wedi cael eu capio mewn gwirionedd sy'n symud tŷ ac mae'r symudiadau sy'n digwydd yn gyffredinol dros bellteroedd byr. Mae hawlwyr, ar y cyfan, yn addasu i'r cap ar fudd-daliadau mewn ffyrdd ar wahân i symud, fel dod o hyd i waith neu addasu eu cyllidebau. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod hawlwyr yn aildrafod eu rhent yn llwyddiannus gyda'u landlordiaid.
- Mae baich achosion cap ar fudd-daliadau yn is na'r hyn a amcangyfrifwyd yn wreiddiol gyda dros 51,000 o gartrefi sydd wedi cael eu capio ers cyflwyno'r cap ar fudd-daliadau ym mis Ebrill 2013 (hyd at fis Awst 2014). Wrth wneud ein hamcangyfrifon gwreiddiol ar gyfer nifer y cartrefi a fyddai'n cael eu capio nad oeddem yn gwerthfawrogi'n llawn nifer buddiannau cadarnhaol y cap a'r cymhelliant y byddai'n rhoi i hawlwyr i symud i gyflogaeth. Mae'r cap yn debygol o arwain at arbedion ehangach o dderbyn budd-daliadau yn is ymhlith y rhai sydd wedi symud i gyflogaeth. Yn fwy o arwyddocâd na hyn yw'r manteision ehangach o symud tuag at waith i hawlwyr, i'w teuluoedd ac i gymdeithas.

ISBN 978-1-78425-415-5

(h) Hawlfraint y Goron 2014

Cyhoeddwyd gan yr Adran
Gwaith a Phensiynau

Rhagfyr 2014

**www.dwp.gov.uk/cymraeg**